Cynefin: Lle, perthyn a dychymyg diwylliannol mewn hanes, llenyddiaeth ac addysg

Geraint Davies a Sioned Hughes

Cyfeirnod:
Davies, G., a Hughes, S. (2026), 'Cynefin: Lle, perthyn a dychymyg diwylliannol mewn hanes, llenyddiaeth ac addysg', *Gwerddon*, 42. <https://doi.org/10.61257/GWER4201>

Cyhoeddwyd: Hydref 2026

Arfarnu:
Mae'r erthygl hon wedi cael ei harfarnu gan gymheiriaid drwy broses ddwbl-ddall *Gwerddon*, cyfnodolyn a gyhoeddir gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Hawlfraint:
© 2026 Yr Awdur(on). Mae hon yn erthygl mynediad agored a ddosberthir o dan delerau'r Drwydded Ryngwladol Creative Commons Attribution 4.0 (CC BY 4.0), sy'n caniatáu defnydd, dosbarthiad ac atgynhyrchu heb gyfyngiad mewn unrhyw gyfrwng, ar yr amod bod yr awdur a'r ffynhonnell wreiddiol yn cael eu cydnabod. Gweler http://creativecommons.org/licenses/by/4.0/.

Mynediad agored:
Mae hon yn erthygl mynediad agored sydd wedi'i hadolygu gan gymheiriaid.

Cynefin: Lle, perthyn a dychymyg diwylliannol mewn hanes, llenyddiaeth ac addysg

Geraint Davies a Sioned Hughes

Crynodeb: Archwilia'r erthygl hon y cysyniad Cymreig o 'gynefin' fel term amlhaenog sy'n destun trafodaeth ddiwylliannol, lenyddol ac addysgol o'r cyfnod canoloesol hyd heddiw. Wedi'i wreiddio'n etymolegol mewn syniadau o gynefin amgylcheddol, arferion a safle cyfarwydd, mae cynefin yn hanesyddol yn dynodi'r strwythurau etifeddol o berthyn a oedd yn rhwymo unigolion wrth dir, perthnasau a chymuned (Pryce 2022). Yn ddiweddar, enillodd 'cynefin' amlygrwydd newydd wrth gael ei ymgorffori yn y Cwricwlwm i Gymru, lle y gweithreda fel egwyddor gwricwlaidd ac fel polisi-addysgeg hybrid (Davis a Conn 2024). Tra cynigia hwn gyfleoedd ar gyfer addysgeg wedi ei selio ar ddiwylliant, mae perygl hefyd o eithrio cymdeithasol os caiff y term ei leihau i haniaethu biwrocrataidd neu ffurfiau cul o berthyn (Davies 2025). Drwy integreiddio hanes llenyddol-ddiwylliannol, dadansoddi disgwrs ac astudiaethau polisi, dengys yr erthygl sut y gweithreda 'cynefin' fel cyfeiriadedd deinamig yn hytrach na chategori sefydlog. Daw i'r casgliad bod cyfoeth y cysyniad yn gorwedd yn ei ddidwylledd: wedi'i wreiddio mewn hanes a thraddodiad, ond eto'n gallu cynnal amryfal hunaniaethau ac arferion addysgol cynhwysol yn y Gymru gyfoes.

Allweddeiriau: cynefin, perthyn, llenyddiaeth, diwylliant, addysg, hanes, polisi, Cwricwlwm i Gymru.

Cynefin: Place, belonging and cultural imagination in Welsh history, literature and education

Summary: This article examines the Welsh concept of 'cynefin' as a multi-layered term that has shaped cultural, literary and educational discourse from the medieval period to the present. Rooted etymologically in ideas of habitat, custom and familiarity, 'cynefin' has historically denoted the inherited structures of belonging that bound individuals to land, kinship and community (Pryce 2022). In the twenty-first century, 'cynefin' has acquired renewed prominence through its adoption into the Curriculum for Wales, where it operates as both a curricular principle and a policy-pedagogy hybrid (Davis a Conn 2024). Whilst this institutionalisation offers opportunities for culturally sustaining pedagogy, it also raises risks of exclusion and instrumentalization if the term is reduced to bureaucratic abstraction or narrowly defined forms of belonging (Davies

2025). By integrating literary-cultural history, discourse analysis and policy studies, the article demonstrates how 'cynefin' functions as a dynamic orientation rather than a fixed category. It concludes that the richness of the concept lies in its openness: rooted in history and tradition, yet capable of sustaining plural identities and inclusive educational practices in contemporary Wales.

Key words: cynefin, belonging, literature, culture, education, history, policy, Curriculum for Wales.

Cyflwyniad

Mae'r erthygl hon yn ceisio archwilio 'cynefin' fel cysyniad amlhaenog, un sy'n cwmpasu hanes, llenyddiaeth, diwylliant a pholisi, sydd wedi tyfu yn hytrach na lleihau dros y canrifoedd. Ar ei symlaf, mae 'cynefin' yn dynodi lle o berthyn arferol: y tir lle y mae rhywun yn byw, yn gweithio ac yn ffurfio ymlyniadau emosiynol. Fodd bynnag, mae ei ystyr yn fwy nag unrhyw gyfieithiad uniongyrchol i'r Saesneg, gyda thermau fel 'habitat', 'locale' neu 'customary land' yn cyfleu dim ond darnau o'i ystod semantig. Yn lle hynny, mae 'cynefin' yn ymgorffori croestoriad cymhleth o leoliad, hunaniaeth a chof, gan adlewyrchu arferion materol a lleoliadau dychmygus.

Mae traddodiadau deallusol Cymru wedi cydnabod arwyddocâd geiriau o'r fath ers tro byd, gyda'u hystyron yn cydnabod pwysigrwydd diwylliannol yn ogystal â phwysigrwydd geiriol. Creda T.H. Parry-Williams (1955) bod iaith yn siapio sut y mae pobl yn meddwl ac yn dangos y profiadau y maent yn eu rhannu. Yn yr un modd, nododd Raymond Williams (1976) rai 'allweddeiriau' fel pyrth i werthoedd a thensiynau cymdeithas. O fewn y ffrâm hon, gellir deall 'cynefin' fel allweddair diwylliannol Cymreig. Ni ellir ei gywasgu i un cofnod geiriadur, gan ei fod yn datgelu cysylltiad rhwng arfer hanesyddol, dychymyg barddonol a dyhead cyfoes. Cyfeiriodd Rowan Williams (2003) at y dychymyg Cymreig fel un lle y mae iaith a ffydd gyda'i gilydd yn cynnal ymwybyddiaeth o le a pherthyn, gan gynnig nid yn unig ddisgrifiad ond hefyd gweledigaeth. Mae'r astudiaeth hon wedi ei harwain gan safbwyntiau tebyg er mwyn archwilio 'cynefin' fel gair sy'n ddisgrifiadol ac yn gynhyrchiol.

Mae'r astudiaeth hon yn mabwysiadu dull rhyngddisgyblaethol, gan gyfuno hanes llenyddol-ddiwylliannol, dadansoddi disgwrs ac astudiaethau polisi. Mae'r dimensiwn hanesyddol yn tynnu ar ymarfer hanesyddiaeth Gymreig (Lynch et al., 1994; Pryce 2022), gan leoli 'cynefin' o fewn cyfraith ganoloesol a thraddodiadau barddonol cynnar, gan gydnabod goblygiadau damcaniaethol ehangach astudio termau dwys yn ddiwylliannol (Confino 1997). Mae'r dadansoddiad llenyddol wedi'i lywio gan astudiaethau allweddair (Williams 1976; Johnston 1994), gan ganolbwyntio ar sut y defnyddiodd beirdd a beirniaid 'cynefin' fel arwyddion o hunaniaeth a pherthyn, gan roi sylw i naws semantig a chyseiniant dychmygus. Mae dadansoddi disgwrs yn darparu fframwaith ar gyfer deall sut y mae'r term yn cylchredeg mewn sylwebaeth ddiwylliannol a dinesig gyfoes, gan gyd-fynd â dulliau o ymdrin ag iaith, perthyn a hunaniaeth mewn beirniadaeth Gymreig (Parry 1953; Gramich

2007; Hopwood 2016). Yn olaf, mae'r defnydd o astudiaethau polisi yn adlewyrchu dulliau sefydledig o addysgu cwricwlwm a lle (Sobel 2004; Roberts 2023), gan ganiatáu gwerthusiad beirniadol o sefydliadoli 'cynefin' o fewn y Cwricwlwm i Cymru. Drwy integreiddio'r safbwyntiau hyn, mae'r erthygl yn dangos sut y gall allweddair diwylliannol weithredu ar yr un pryd fel etifeddiaeth hanesyddol, adnodd barddonol ac offeryn a ddefnyddir er mwyn cyflawni nodau polisi.

Mae cyfraniad yr erthygl hon yn gorwedd yn ei hymgais i bontio meysydd sy'n aml yn cael eu trin ar wahân. Drwy ystyried gwreiddiau hanesyddol 'cynefin' mewn cyfraith a defnydd tir, ei fynegiant llenyddol yng ngwaith R. Williams Parry ac Eifion Wyn, a'i ailgyflwyniad o fewn trafodaeth ddiwylliannol gyfredol a'r Cwricwlwm i Cymru, mae'r drafodaeth yn lleoli'r term o fewn traddodiad a thrawsnewidiad. Y nod yw peidio â dihysbyddu ei ystyron, ond dangos y cyfoeth sy'n dod i'r amlwg pan roddir hanes, llenyddiaeth a pholisi addysgol mewn deialog. Wrth wneud hynny, mae'r erthygl yn dadansoddi'r gair 'cynefin', gan roi sylw i'w ddyfnder diwylliannol a'r defnydd cyfoes ohono, ac mae'n dangos ymwybyddiaeth o'i arwyddocâd yn y dyfodol ym mywyd deallusol Cymru.

Ystyr hanesyddol a tharddiad 'cynefin'

Dynoda tystiolaethau cynharaf o 'gynefin' faes semantig llawer cyfoethocach na'r gair modern 'habitat'. Yn etymolegol, mae'r gair fel arfer yn cael ei olrhain i'r rhagddodiad 'cyn-' (cynharach, blaenorol neu frodorol) a'r hyn sy'n gyfarwydd neu'n arferol (Geiriadur Prifysgol Cymru, 1950–2002).

Yn y cofnodion o'r achosion cyntaf y'i defnyddiwyd, cyfeiria'r term nid yn unig at leoliad ffisegol ond at ofod sy'n cynnwys presenoldeb dynol ac anifeiliaid. Felly, yn fyr, awgryma felly'r cysylltiad rhwng arfer, cof a pherthyn.

Mewn testunau cyfreithiol Cymraeg canoloesol, yn enwedig Cyfraith Hywel Dda, daw 'cynefin' i'r amlwg fel term sy'n gysylltiedig â breintiau a hawliau defodol. Fel y noda Lynch et al. (2003), roedd y gair yn aml yn dynodi'r traddodiad o bori mewn perthynas â da byw, yn gysylltiedig â defnydd ymarferol a chydnabyddiaeth gymdeithasol. Roedd yn gweithredu'n llai fel arwydd haniaethol o dir ac yn fwy fel cydnabyddiaeth o barhad byw: roedd gan anifeiliaid eu 'cynefin', ac o ganlyniad, roedd gan bobl eu cynefin hefyd. Mae'r ymdeimlad o ymlyniad etifeddol yn atseinio'n gryf yma, gan atgyfnerthu'r syniad bod 'cynefin' yn anwahanadwy oddi wrth y gyfraith, y gymuned a rhwydweithiau perthnasau.

Yn yr un modd, tanlinella ffynonellau barddonol y cysylltiad hwn. Mewn cywyddau ac englynion cynnar, defnyddiwyd 'cynefin' i ddeffro'r wybodaeth am dirwedd ac arferion a ddiffiniodd ddychymyg diwylliannol Cymru. Dadleua Lynch et al. (1994, 2003) fod beirdd canoloesol yn aml yn defnyddio termau sy'n gysylltiedig â chynefin er mwyn mynegi'r ymdeimlad o berthyn, yn bersonol ac yn gymunedol, gan osod y bardd o fewn daearyddiaeth foesol a oedd mor gymdeithasol ag yr oedd yn dopograffig. Mae ailymddangosiad y term mewn cyd-destunau barddonol yn atgyfnerthu ei atseinio haenog: nid dynodi lleoliad person yn unig y mae, ond mae'n dynodi lle y caiff person ei gydnabod, ei gofio, a'r lle y mae

ganddo'r hawl i breswylio.

Mae'r dyfnder hanesyddol hwn yn cymhlethu unrhyw ymgais i gyfieithu 'cynefin' yn uniongyrchol i'r Saesneg. Fel y mae Pryce (2022) yn ein hatgoffa, mae terminoleg Gymraeg sy'n gysylltiedig â thir a lleoliad yn aml yn cario awgrym cyfreithiol a chymunedol sy'n absennol mewn cyffelybiaethau Saesneg. Yn hyn o beth, mae 'cynefin' yn cyd-fynd â thermau eraill sy'n ddwys o ran diwylliant, fel *Heimat* yn yr Almaeneg, sef y famwlad leol a oedd yn sail i adeiladwaith cof cenedlaethol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, lle y mae profiad byw, parhad hanesyddol a pherthyn affeithiol yn cydgyfarfod (Confino 1997). Ac eto, yn wahanol i *Heimat* – lle y gwelwyd defnydd o'r term mewn trafodaethau cenedlaetholgar ac weithiau mewn perthynas ag eithrio yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif – gwelwyd cynefin yn parhau i gael ei gysylltu â'r lleol a bywyd bod dydd. Fe'i defnyddiwyd i ddisgrifio cysylltiadau real a byw rhwng pobl, tir a chof, yn seiliedig ar brofiad a thraddodiad, yn hytrach na syniadau gwleidyddol haniaethol.

Gyda'i gilydd, awgryma'r cofnod hanesyddol y dylid deall 'cynefin' fel mwy na gair sy'n ddisgrifiad niwtral o le. Gweithredai fel arwydd diwylliannol o fewnosodiad: y gofod lle y mae rhywun yn perthyn trwy rinwedd defnydd, hanes a chydnabyddiaeth. Roedd y gair yn amgodio nid yn unig daearyddiaeth ond hefyd cyfraith, perthynas a barddoniaeth. Yn y modd hwn, mae'n darparu enghraifft drawiadol o sut y cynhaliodd y Gymraeg gysyniadau o le sy'n cydblethu arfer materol ac arwyddocâd dychmygus, gan osod y sylfaen ar gyfer manylder llenyddol a diwylliannol diweddarach.

Cynefin yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol a'r cyfnod modern cynnar

Dangosa hanes llenyddol 'cynefin' sut y mudodd cysyniad a oedd â gwreiddiau mewn cyfraith ac arfer i dirweddau dychmygus barddoniaeth, gan gaffael dimensiynau symbolaidd ac affeithiol newydd. O draddodiad cywydd diwedd yr Oesoedd Canol hyd at farddoniaeth y cyfnod modern cynnar, daeth maes semantig 'cynefin' – sy'n cwmpasu gwreiddiau ac ymlyniad etifeddol – yn adnodd ar gyfer mynegi hunaniaeth, cymuned a pharhad diwylliannol. Mae'r rhyngweithio rhwng cyfraith, tir a llenyddiaeth yn datgelu sut y lluniodd awduron Cymru ddaearyddiaeth foesol a dychmygus lle nad oedd lle byth yn niwtral ond yn gysylltiedig â chof, perthyn a chyfreithlondeb.

Atseinio canoloesol: lleoliad, arfer a dychymyg barddonol

Er nad yw'r term 'cynefin' ei hun yn cael ei ddefnyddio'n gyson yng ngwaith Dafydd ap Gwilym o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, mae ei faes semantig yn bresennol yn y dwyster a roddai i le yn ei farddoniaeth (Johnston 1994). Nid yw defnydd Dafydd ap Gwilym o goedwigoedd, afonydd a bryniau yn ddisgrifiadol yn unig ond yn fynegiant o amgylchedd byw: tirwedd sy'n adnabyddus a chanddi enw, ac a amgodiwyd yn ddiwylliannol. Mae tirweddau o'r fath yn gweithredu fel yr hyn y mae Pearson (2006) yn ei alw'n lleoedd ymgorfforedig a chofiadwy, gan ffurfio cynfas barddonol a daearyddiaeth gymdeithasol.

Yma, mae 'cynefin' yn atseinio'n fwy fel egwyddor strwythuro yn hytrach nag fel eitem eiriadurol. Mae 'ardal gartref' (y fro) neu 'gartref' y bardd yn angori ei hunaniaeth, gan ei fewnosod o fewn matrics o leoliad a chydnabyddiaeth. Honna Parry (1948) fod beirdd Cymraeg yr Oesoedd Canol yn defnyddio idiomau tir arferol yn rheolaidd er mwyn mynegi eu teimladau personol o berthyn a pherthyn cymunedol, gan leoli eu hunain o fewn yr hyn y mae'n ei alw'n 'ddaearyddiaeth foesol' lle y mae bywyd moesegol yn anwahanadwy oddi wrth dirwedd. Roedd y disgwyliad diwylliannol yn glir: i adnabod tir rhywun, 'cynefin' rhywun, roedd yn rhaid iddo gael ei leoli'n briodol yn y gymuned.

Mae'r cysylltiad rhwng ymarfer barddonol a chyfraith yr Oesoedd Canol yn addysgiadol. Fel y dangosa Lynch et al. (2003) a Jenkins (2000), roedd 'cynefin' yng Nghyfraith Hywel Dda yn dynodi'r traddodiad o bori, a gydnabuwyd gan gyfraith ac arferion bywyd bob dydd. Felly mae'r testun cyfreithiol a'r corff barddonol yn rhannu tir cysyniadol: lle fel safle cydnabyddiaeth, hawl a chof. Roedd cyfeirio at leoliad/lle mewn barddoniaeth yn cyfleu ystyron dyfnach am berthyn, hawliau a chymdeithas – nid nodwedd greadigol yn unig.

Trawsffurfiadau modern cynnar: parhad a chymuned

Erbyn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg, daeth barddoniaeth Gymraeg yn fwyfwy cysylltiedig â chwestiynau parhad mewn trefn gymdeithasol newidiol. Cynhaliodd beirdd yr uchelwyr drafodaeth ar wreiddiau a oedd yn gwerthfawrogi lleoliad fel angor cyfreithlondeb diwylliannol. Cyfeiria Williams (2003) at sut yr oedd termau sy'n gysylltiedig ag arfer a pherthyn – sy'n gysylltiedig yn agos â 'chynefin' – yn cael eu defnyddio mewn marwnadau a chanu mawl er mwyn clymu unigolion wrth eu ffermydd, eu dyffrynnoedd neu eu plwyfi. Roedd disgrifio person mewn perthynas â'i 'gynefin' yn ei leoli'n foesegol, fel ffigwr wedi'i wreiddio yn y tirwedd a'r cof.

Fodd bynnag, nid datblygiad ieithyddol yn unig oedd y datblygiad hwn. Roedd hefyd yn ddatblygiad ideolegol. Fel y noda Lynch et al. (2003), cynyddodd pwysau symbolaidd lleoliad wrth i fonedd Cymru ddod yn fwy Seisnig o ran eu hiaith a'u safbwynt. Felly roedd barddoniaeth yn gwasanaethu fel gwrth-drafodaeth, gan ailddatgan parhad rhwng pobl a lle mewn oes o drawsnewid diwylliannol. Yn aml, roedd honiadau o'r fath yn awgrymu beirniadaeth: roedd gwanhau diwylliannol yn gyfystyr â bod heb wreiddiau a bod yn ddatgysylltiedig â chynefin.

Ymhelaethwyd ar 'gynefin' yn y cyfnod modern cynnar hefyd fel rhywbeth disgrifiadol a delfrydol. Fe'i defnyddiwyd gan y beirdd nid yn unig er mwyn dynodi tir cyfarwydd ond er mwyn ysgrifennu cyfres o werthoedd a oedd yn gysylltiedig â theyrngarwch, cyfreithlondeb ac etifeddiaeth. Yn yr ystyr hwn, trawsnewidiwyd 'cynefin' i fod yn arwydd moesol: fel lle nid yn unig y mae rhywun yn byw ynddo ond hefyd fel lle y mae disgwyl i'r person hwnnw ei gadw a'i anrhydeddu.

Daearyddiaeth farddonol perthyn

Mae deunyddiau llenyddol sy'n ymwneud â 'chynefin' yn y cyfnod hwn yn datgelu deuoliaeth

sy'n cael ei hamlygu ac a welwyd yn y gweithiau rhamantaidd a modern yn ddiweddarach. Ar y naill law, cyfeiriwyd at 'cynefin' fel lleoliad bywyd bob dydd: ffermydd, llethrau bryniau a phlwyfi sy'n gysylltiedig ag arfer a chof. Ar y llaw arall, daeth cynefin yn ganolfan perthyn delfrydol, safle hiraeth a dyhead. Mae'r ystyr deuol hwn yn amlwg yn y ffordd y defnyddiodd y beirdd yr hyn y mae Confino (1997) yn ei alw'n 'drosiadau lleol', er mwyn cysylltu hunaniaeth bersonol â thirluniau (neu leoliadau/tirweddau) real a dychmygol.

Mae'r ddeuoliaeth hefyd yn adleisio mewnwelediad Raymond Williams (1976) fod allweddeiriau diwylliannol yn aml yn cario grym disgrifiadol a gwerthusol. Mewn cyd-destunau llenyddol, disgrifiodd 'cynefin' fel lle o berthyn arferol gan ei ddelfrydu ar yr un pryd fel safle barhaol yng nghanol newid cymdeithasol. Yn hyn o beth, mae barddoniaeth fodern gynnar yn rhagweld defnydd diweddarach o 'gynefin' fel allwedd i oroesiad diwylliannol.

Cynefin a gwleidyddiaeth iaith a pharhad

Cafodd gwerth symbolaidd 'cynefin' ei ddwysáu ymhellach gan newidiadau ieithyddol a gwleidyddol ehangach. Arweiniodd Seisnigeiddio'r elît, dirywiad y Gymraeg mewn cyd-destunau gweinyddol, a phwysau adeiladu gwladwriaethau modern cynnar at wneud sefydlu gwreiddiau yn lleol yn weithred ddiwylliannol rymus. Awgryma Lynch et al. (2023) fod cyfeiriadau at gynefin a thermau cysylltiedig yn gweithredu fel ffurfiau cynnil o wrthwynebiad gan bwysleisio nad oedd hunaniaeth Gymreig yn gyfyngedig i iaith yn unig, ond ei bod wedi'i gwreiddio hefyd yn y tir a thraddodiadau.

Ar yr un pryd, gall y term fod yn gynhwysol ac yn allgynhwysol. Mae galw ar 'gynefin' yn mynnu lle rhywun mewn rhwydwaith cydnabyddedig o gof a pherthyn, ond gallai cydnabyddiaeth o'r fath hefyd nodi ffiniau, gan wahaniaethu rhwng y rhai hynny sydd wedi'u lleoli ar y tu mewn ('insiders') neu'n perthyn i'r gymuned neu rwydwaith a'r rhai a leolir ar y tu allan ('outsiders') i'r gymuned neu'r rhwydwaith. Mae'r tensiwn hwn yn paratoi'r ffordd at ddadleuon diweddarach am *gynefin* mewn cyd-destunau addysgol a dinesig, lle y mae ei botensial ar gyfer cynhwysiant yn cydfodoli â risgiau sydd ynghlwm wrth hanfodoldeb (Williams 2020; Davies 2025).

O arfer i ddychymyg: etifeddiaeth lenyddol

Gyda'i gilydd, mae'r defnydd o 'cynefin' yn yr Oesoedd Canol a'r cyfnod modern cynnar yn datgelu llwybr o arfer cyfreithiol at ddychymyg barddonol. Wedi'i gysylltu i ddechrau â chydnabyddiaeth o hawliau arferol mewn defnydd tir, cafodd y cysyniad ei ymestyn yn raddol i fod yn allweddair llenyddol sy'n mynegi parhad, hunaniaeth a dyhead. Fel y dangosa Johnston (1994), roedd beirdd Cymru – pan oeddent yn defnyddio'r gair 'cynefin' neu'n ei awgrymu drwy idiomau cysylltiedig – yn ei ddefnyddio yn eu barddoniaeth fel ffordd o angori diwylliant hunaniaeth.

Yn ddiweddarach, byddai'r etifeddiaeth lenyddol hon yn llywio ailddyfeisiadau'r cyfnod Rhamantaidd a'r ugeinfed ganrif o 'gynefin' i fod yn safle hiraeth a pherthyn hiraethus (Williams 1964; Gramich 2007). Eto, yn y cyfnod modern cynnar, roedd amlinelliadau'r

pŵer dychmygus hwn yn weladwy. Mae dyfalbarhad 'cynefin' fel categori byw a chategori delfrydol yn egluro ei addasrwydd: cysyniad sydd wedi'i wreiddio mewn tir a chyfraith, ond eto sy'n ddigon eang i gario pwysau diwylliannol, emosiynol a gwleidyddol.

Cynefin yn llenyddiaeth Gymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif gwelwyd trawsnewidiad yn y defnydd o'r term 'cynefin' o fod yn derm arferol a barddonol i fod yn allweddair diwylliannol ym mynegiant llenyddol Cymru. Yn erbyn cefnlen y chwyldro diwydiannol, dirywiad ieithyddol, mudo ac ymyleiddio gwleidyddol, trodd awduron fwyfwy at 'cynefin' fel cysyniad ar gyfer ymdrin â'r ymdeimlad o berthyn a cholled. Tra oedd y term 'cynefin' ynghlwm wrth arfer cyfreithiol a daearyddiaeth foesol yn ystod yr Oesoedd Canol a'r cyfnod modern cynnar, mewn llenyddiaeth fodern daeth 'cynefin' yn air a oedd yn mynegi teimlad, hiraeth, ac yn air a gâi ei ddadansoddi'n aml. Roedd yn gweithredu fel gair disgrifiadol, gan gyfleu tirweddau a chymunedau lleol, yn ogystal â gweithredu fel symbol o barhad a gwrthwynebiad i newid mewn gwlad (Cymru) a oedd yn newid yn gyflym.

Rhamantiaeth, diwydiannu a barddoniaeth lle

Deffrôdd y cyfnod Rhamantaidd agweddau'r Cymry tuag at le a thirwedd. Er bod Rhamantwyr yn Lloegr yn aml yn delfrydu 'natur wyllt', yng Nghymru, roedd dychymyg lle wedi'i gysylltu'n ddwfn â goroesiad diwylliannol. Noda Pearson (2006) fod arfer y Rhamantwyr o werthfawrogi lleoliad wedi atgyfnerthu traddodiadau Cymreig hŷn, ond hefyd wedi creu tensiynau newydd: ailddychmygwyd tirweddau ar yr un pryd fel safleoedd balchder cenedlaethol ac fel safleoedd diwydiannol a chyrchfannau twristiaeth.

Gwaethygodd y chwyldro diwydiannol y tensiynau hyn. Gwelwyd trawsnewidiad dramatig i gymunedau yn ne Cymru, gyda chynefinoedd gwledig yn cael eu trawsnewid gan drefoli, mwyngloddio a newid demograffig (Pryce 2022). Trodd beirdd ac awduron rhyddiaith fel ei gilydd at 'gynefin' fel ffordd o fynnu parhad yn wyneb dadleoli. Fel yr arsylwodd Thomas (1992), ystyriwyd y famwlad wledig fwyfwy yn wrthbwynt symbolaidd i'r cymoedd diwydiannol, ac yn ystorfa o gof diwylliannol.

Felly, gwelwyd ehangu ar haenu semantig 'cynefin' yn y cyfnod hwn: roedd yn dynodi nid yn unig yr hyn sy'n gyfarwydd ac yn draddodiadol ond hefyd y cysyniad o hiraeth, yr hyn y mae Williams (2003) yn ei adnabod fel 'lleoliad, diwylliant a hunaniaeth'. Mae hyn yn rhagweld y cydblethu diweddarach rhwng 'cynefin' a hiraeth, sef yr hiraeth am gartref sy'n bell i ffwrdd neu sydd wedi'i golli.

R. Williams Parry: parhad a gwreiddiau symbolaidd

Ymhlith beirdd yr ugeinfed ganrif, R. Williams Parry (1884–1956) a grisialodd rym llenyddol 'cynefin' yn fwyaf pendant. Mae ei farddoniaeth yn aml yn lleoli'r hunan yn nhirwedd Eryri, gan drawsnewid topograffeg leol yn symbolau o barhad a chysylltiad dros amser.

Yn ei gerddi 'Eifionydd' a 'Dinas Noddfa', nid nodweddion daearyddol yn unig sydd gan y mynyddoedd a'r afonydd ond maent hefyd yn arwyddluniau o barhad, ystorfeydd o gof diwylliannol a dyhead (Jones 1935).

Mae ymgysylltiad Williams Parry â chynefin yn ddeublyg. Yn gyntaf, mae'n ddisgrifiadol: mae ei farddoniaeth yn dangos sylw manwl i nodweddion Sir Gaernarfon. Yn ail, mae'n symbolaidd: daw 'cynefin' yn drosiad am barhad a ffyddlondeb, yr hyn y mae Gramich (2007) yn ei ddisgrifio fel tirwedd symbolaidd ysgrifennu Cymraeg modern. Mae'r ffisegol yn dod yn symbolaidd, gan angori hunaniaeth y bardd ym mharhad y tir yng nghanol llif newid diwylliannol ac ieithyddol.

Mae gwaith Williams Parry yn enghraifft o'r hyn y mae Raymond Williams (1976) yn ei alw'n 'allweddeiriau' trafodaeth ddiwylliannol. Mae 'cynefin' yn ei farddoniaeth yn cynrychioli gwerthoedd o barhad, gwreiddiau a gwydnwch, sy'n rhagori ar ei ystyr geiriol uniongyrchol. Mae'n brofiad byw sydd wedi'i ddyrchafu i fod yn drosiad diwylliannol, ac yn strategaeth o oroesi yn wyneb dadleoliadau moderniaeth.

Eifion Wyn: hiraeth a breuder perthyn

Os yw cynefin Williams Parry yn pwysleisio parhad, mae Eifion Wyn (Eliseus Williams, 1867–1926) yn dynodi breuder. Mae ei farddoniaeth, yn enwedig Caniadau'r Allt (1927) a Telynegion Maes a Mor (1908), yn llawn hiraeth am Lŷn ac Eifionydd, ac yn arddangos tirweddau/tirluniau fel rhai sy'n parhau ond sydd hefyd wedi eu colli, hynny yw, maent yn parhau gan eu bod yn weledol ac mae'n bosibl eu gweld ac ymweld â hwy, ond hefyd maent wedi eu 'colli' o ran ystyr neu brofiad. Er bod y tirweddau'n parhau i fod yno, mae'r ffyrdd o fyw, diwylliant neu'r ymdeimlad o berthyn wedi newid neu ddiflannu. Mewn cerddi fel 'Cwm Pennant' a 'Cymru Annwyl', mae cynefin yn dynodi hiraeth ac yn gydgyfeiriant o atgof, awydd a dadleoliad (Williams 1964).

Felly, mae defnydd Eifion Wyn o *gynefin* wedi'i nodweddu gan ddeuoliaeth. Ar y naill law, mae'n cadarnhau atyniad parhaol cartref, y 'tir cyfarwydd' y mae'r hunan yn parhau i fod ynghlwm wrtho. Ar y llaw arall, mae'n cyfeirio at yr amhosibilrwydd o ddychwelyd yn llawn, y rhwygiadau a gyflwynir gan alltudiaeth, symudedd a newid. Noda Hopwood (2016) fod yr amwysedd hwn yn parhau i lunio trafodaeth Gymreig: mae 'cynefin' yn gweithredu fel iaith ar gyfer cysur a dieithrwch, gan fynegi ymdeimlad o berthyn ar yr un pryd â datgelu ei ansicrwydd.

Trwy farddoniaeth Wyn, mae 'cynefin' yn esgor ar ddwyster affeithiol sy'n ategu gwreiddiau symbolaidd Williams Parry. Gyda'i gilydd, mae'r ddau fardd yn darlunio'r ystyron deublyg o *gynefin* Cymraeg modern: parhaol a bregus ar yr un pryd, ffynhonnell parhad ac arwydd o golled.

Cynefin, moderniaeth a goroesiad diwylliannol

Mae'r ymdriniaeth â 'chynefin' yn llenyddiaeth Gymreig y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif yn adlewyrchu pryderon ehangach ynghylch goroesiad diwylliannol.

Creodd diwydiannu, dirywiad ieithyddol, yn ogystal ag ymgorffori Cymru yn strwythurau economaidd a gwleidyddol ehangach Prydain, ymdeimlad o ddatgymalu yr oedd awduron yn ceisio ei gyfleu trwy ddelweddau o wreiddiau. Fel y mae Gramich (2007) yn ei ddadlau, roedd geirfa Gymreig a oedd yn ymwneud â lle, a 'cynefin' yn bennaf yn eu plith, yn gwasanaethu fel un o'r adnoddau mwyaf gwydn mewn perthynas â hunaniaeth genedlaethol, gan alluogi llenyddiaeth i bontio cof personol a goroesiad.

Gwelir y ddeinameg hon hefyd trwy lens yr hyn y mae Confino (1997) yn ei alw'n 'y genedl fel trosiad lleol'. Yn union fel y defnyddiwyd *Heimat* yn yr Almaeneg i gysylltu lleoliadau â hunaniaeth genedlaethol, roedd 'cynefin' yn helpu ysgrifenwyr Cymraeg i drosglwyddo eu profiadau personol i ymdeimlad cenedlaethol o berthyn. Eto, fel y rhybuddia Pryce (2022), mae'r cyd-destun Cymreig yn wahanol: er bod *Heimat* yn aml yn cael ei gysylltu â thrafodaethau cenedlaetholgar am eithrio, parhaodd 'cynefin' i gael ei gysylltu â diwylliant, emosiynau a bywyd cymunedol yn hytrach nag â syniadau gwleidyddol.

Serch hynny, nid yw 'cynefin' mewn llenyddiaeth fodern yn rhydd o densiynau. Roedd mewn perygl o hanfodoli'r ymdeimlad o berthyn, gan dynnu ffiniau o amgylch y sawl y cydnabyddir eu bod yn hanu o'r 'lle'. Fel y sylwa James (2018), gall trafodaethau am berthyn diwylliannol yng Nghymru fod yn gynhwysol ac yn eithriol, yn dibynnu ar sut y mae lleoliad yn cael ei ddychmygu. Mae'r potensial deuol hwn yn parhau i fod yn ganolog i ddefnydd cyfoes 'cynefin' mewn cyd-destunau diwylliannol ac addysgol.

Allweddair llenyddol a pharhad diwylliannol

Erbyn canol yr ugeinfed ganrif, roedd 'cynefin' wedi datblygu i fod yr hyn y mae Raymond Williams (1976) yn ei ddisgrifio fel allweddair diwylliannol: term y mae ei ystyron yn crynhoi dimensiynau hanesyddol, cymdeithasol ac affeithiol cymhleth. Yn nwylo beirdd fel Williams Parry a Wyn, nid oedd 'cynefin' bellach yn arwydd o sail arferol cyfraith ganoloesol yn unig ond yn storfa o barhad diwylliannol a dyhead dychmygus.

Tanlinella'r newid hwn addasrwydd y cysyniad. O lysoedd barn canoloesol i farddoniaeth fodern, gweithredodd cynefin fel disgrifiwr a throsiad, gan bontio deunydd a daearyddiaethau dychmygus. Darparodd y crisialu llenyddol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif sylfaen ar gyfer ei fabwysiadu wedi hynny mewn beirniadaeth ddiwylliannol (Hopwood 2016; Gramich 2007) a pholisi addysgol (Evans 2022; Roberts 2023). Yn hyn o beth, mae traddodiad llenyddol 'cynefin' yn enghraifft o bŵer iaith i gynnal dychymyg diwylliannol. Dangosa sut y gall geiriau deithio ar draws canrifoedd, gan fathu ystyron newydd wrth barhau yn sail i le a bywyd bob dydd.

Cynefin, Hiraeth a Heimat*: Allweddeiriau cymharol o berthyn*

Ni ellir deall esblygiad 'cynefin' mewn llenyddiaeth fodern Gymreig heb ei osod ochr yn ochr ag idiomau eraill o berthyn. Yr hyn sydd bwysicaf yw ei berthynas â hiraeth, y mynegiant Cymreig nodweddiadol o hiraeth am gartref, cymuned neu dirwedd sydd wedi diflannu am byth. Er bod 'cynefin' yn dynodi'r cyflwr o fod yn gyfarwydd ag amgylchedd,

y ‘cynefin’ sy’n ffurfio hunaniaeth person; mae ‘hiraeth’ yn mynegi tynfa emosiynol y cyflwr hwnnw unwaith y bydd dan fygythiad, yn absennol neu wedi’i drawsnewid. Mewn ymarfer llenyddol, mae’r ddau derm yn aml yn cydblethu. Fel mae barddoniaeth Eifion Wyn yn ei ddangos, mae cynefin yn aml yn dod yn safle o hiraeth, sef lleoliad hiraeth oherwydd ei natur fregus o dan bwysau moderniaeth (Williams 1964; Hopwood 2016).

Mae’r plethiad hwn o hiraeth a man cyfarwydd yn atseinio’n glir gyda thraddodiadau y gellir eu cymharu. Dangosa astudiaeth Confino (1997) ar y cysyniad Almaenig o ‘*Heimat*’ – y famwlad leol a oedd yn sail i adeiladwaith cof cenedlaethol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg – sut y gall lleoliad wasanaethu fel trosiad am hunaniaeth gyfunol. Fel ‘cynefin’, roedd ‘*Heimat*’ yn cyddwyso haenau o gof, cymuned a pherthyn i un term. Datgela’r ddau derm sut y mae idiomau sy’n seiliedig ar le yn dod yn allweddeiriau diwylliannol, gan weithredu fel yr hyn y mae Raymond Williams (1976) yn ei alw’n ‘structures of feeling’: geiriau sy’n ymgorffori nid yn unig ystyron ond teimladau a phrofiadau bywyd hefyd.

Cynefin mewn trafodaeth a pholisi diwylliannol cyfoes

Mae taith lenyddol ‘cynefin’ dros y bedwaredd ganrif ar bymtheg a’r ugeinfed ganrif, a’i gydberthynas â thermau cyfatebol fel ‘hiraeth’ a ‘*Heimat*’, yn darparu cefndir hanfodol ar gyfer deall ei ail-leoli cyfoes yn nhrafodaeth ddiwylliannol a gwleidyddol Cymru. Fel y dadleuwyd uchod, mae ‘cynefin’ wedi bodoli’n llai fel slogan cenedlaetholgar cul ac yn fwy fel yr hyn y mae Raymond Williams (1976) yn ei alw’n ‘allweddair’: term dwys a chyfarwydd sy’n crynhoi profiad hanesyddol, ymlyniad emosiynol a dychymyg diwylliannol. Yn y cyd-destun hwn, mae’n enghreifftio sut y lluniwyd hunaniaeth ddiwylliannol Cymru nid yn unig trwy ddadl wleidyddol benodol ond hefyd trwy waith cynnil iaith, trosiad a thraddodiad llenyddol.

Fodd bynnag, mae’n rhaid cydnabod y defnydd hirhoedlog hwn wrth drafod sefydliadoli mwy diweddar ‘cynefin’. Mewn beirniadaeth ddiwylliannol, mae’r term yn aml yn cael ei gysylltu â hiraeth er mwyn disgrifio’r cysylltiad parhaol rhwng lle, perthyn a’r teimlad o golled (Adams 2024; Hopwood 2016; Gramich 2007). Ac eto, yn wahanol i hiraeth, sy’n awgrymu absenoldeb, caiff ‘cynefin’ ei ddefnyddio fwyfwy fel egwyddor adeiladol, sy’n canolbwyntio ar y dyfodol – angor ar gyfer polisi addysgol, cynllunio diwylliannol ac adnewyddu cymdeithasol (Roberts 2023; Davies 2025). Adlewyrcha’r newid hwn ddeinameg gymharol ehangach. Er y bu ‘*Heimat*’, yng nghyd-destun yr Almaen, yn agored i argyfwng gwleidyddol, ac y’i defnyddir yn aml er mwyn diffinio ffiniau ethnig perthyn (Confino 1997), mae ‘cynefin’ wedi cael ei ail-lunio’n bennaf o fewn trafodaeth Gymreig fel adnodd addysgeg a diwylliannol cynhwysol. Mae Cwricwlwm i Gymru (Llywodraeth Cymru 2020, 2022) yn enghraifft o hyn, gan osod ‘cynefin’ fel conglfaen ar gyfer meithrin ffurfiau hunaniaeth sydd wedi’u gwreiddio’n lleol ond sydd hefyd yn amlhaenog, lle y mae dysgwyr yn cael eu hannog i weld eu hunain mewn perthynas â’u cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Serch hynny, fel y rhybuddia beirniaid cyfoes (Davies 2025; James 2018), nid yw’r defnydd sefydliadol o ‘gynefin’ heb risg. Fel gyda ‘Heimat’, gall ei sail mewn syniadau o

gyfarwydd-deb a chydnabyddiaeth roi blaenoriaeth anfwriadol i naratifau mwyafrifol iaith a diwylliant, gan wneud profiadau newydd-ddyfodiaid, grwpiau lleiafrifol, a'r rhai y mae eu hunaniaethau'n cael eu negodi ar draws amryfal orwelion diwylliannol, yn anweledig. Yma eto, mae llenyddiaeth yn ein hatgoffa fod gan y term amryw o ystyron: mae'r darluniau amrywiol, sydd weithiau'n ddadleuol, o 'gynefin' yn nhestunau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif yn dangos na fu ei ystyr yn sefydlog, ac na fu ganddo un ystyr yn unig, ond yn hytrach bu i'w ystyr newid dros amser, yn ogystal â'r defnydd ohono.

Awgrymir felly mai'r tensiwn hwn, rhwng parhad ac amlystyr, rhwng teimladau personol o berthyn a'i ddefnydd mewn polisi, sy'n diffinio arwyddocâd cyfoes 'cynefin'. Mae'r is-adrannau canlynol yn archwilio sut y mae'r term yn gweithredu ar groesffordd disgwrs diwylliannol a diwygio addysgol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ei ymgorffori yn y Cwricwlwm i Gymru, ei rôl mewn ymarfer addysgeg, a'i botensial i feithrin ffurfiau cynhwysol o berthyn yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain.

Cynefin mewn disgwrs a pholisi diwylliannol cyfoes

Mae parhad 'cynefin' fel allweddair diwylliannol Cymreig hyd at yr unfed ganrif ar hugain yn adlewyrchu ei ddyfnder hanesyddol a'i allu i addasu. Fel yr amlinellwyd yn yr adrannau blaenorol, mae'r term wedi teithio o'i darddiad cyfreithiol yng nghyfraith yr Oesoedd Canol trwy ei ymhelaethiad llenyddol mewn barddoniaeth i ddod yn arwyddbost pwerus o leoliad, perthyn a chof. Yn y Gymru gyfoes, mae 'cynefin' bellach yn cael ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd: mewn trafodaethau diwylliannol gan sefydliadau cymunedol ac mewn polisi addysgol. Mae'r adran hon yn olrhain y llwybrau hyn, gan osod 'cynefin' o fewn dadleuon byd-eang ar le a pherthyn, wrth amlygu yr hyn sy'n ei wneud yn wahanol ac yn unigryw.

Cynefin fel ymdeimlad o berthyn diwylliannol

Un o'r meysydd mwyaf gweladwy ar gyfer ailddefnyddio 'cynefin' mewn cyd-destun modern yw beirniadaeth ddiwylliannol. Mae awduron ac ysgolheigion yn troi fwyfwy at y term er mwyn mynegi arwyddocâd parhaol lle yn hunaniaeth Cymru. Mae Williams (2003) yn dadlau bod geirfa Gymraeg yn ymwneud â lle wedi gweithredu fel angor diwylliannol mewn cyfnodau o drawsnewid cymdeithasol, gyda 'cynefin' yn esgor ar eirfa ar gyfer cynnal cysylltiadau rhwng iaith, cymuned a lleoliad. Mewn defnydd cyfoes, mae'r gair yn aml yn cyfleu ymdeimlad o gysur – yr amgylchedd lle y mae rhywun yn teimlo'n gartrefol.

Mae hyn yn cyd-fynd â dealltwriaeth byd-eang bod pobl yn deall lle drwy eu profiadau a'u hatgofion. Cyfeiria Yi-Fu Tuan (1977) at 'topoffilia' fel y cysylltiad emosiynol y mae pobl yn ei deimlo tuag at le, tra bod Casey (1996) yn tynnu sylw at sut y mae cof yn helpu i greu'r lleoedd rydym yn byw ynddynt. Mewn daearyddiaeth ddiwylliannol, mae Massey (2005, t. 26) wedi herio syniadau sefydlog o le trwy ei ystyried yn 'a meeting point of trajectories', lle y mae'r bywyd lleol a chysylltiadau byd eang yn dod ynghyd. O fewn y fframweithiau hyn, gellir deall 'cynefin' fel mynegiant Cymreig o ffenomen ddynol ehangach:

y rhyngweithio deinamig rhwng lleoliad, cof a hunaniaeth.

Eto i gyd, yn wahanol i gywerthoedd haniaethol Saesneg fel 'habitat' neu 'place', mae 'cynefin' yn parhau i fod wedi'i wreiddio yn nhraddodiadau iaith a diwylliant Cymru. Y gwreiddiau hyn sy'n rhoi iddo atsain symbolaidd a pherthynas ymarferol mewn trafodaeth gyhoeddus Gymreig.

Cynefin a hiraeth: parhad a chyferbyniad

Nodwedd sy'n codi dro ar ôl tro mewn sylwebaeth ddiwylliannol fodern yw paru 'cynefin' â 'hiraeth'. Er bod 'hiraeth' yn dynodi hiraeth am yr hyn sydd ar goll – yn aml cartref, mamwlad neu berthyn diwylliannol – mae 'cynefin' yn awgrymu synnwyr o fod yn bresennol mewn lle cyfarwydd lle y mae hunaniaeth yn cael ei meithrin. Sylwa Gramich (2007) bod y geiriau hyn gyda'i gilydd yn ffurfio dialectig o gof diwylliannol Cymru: 'hiraeth' fel colled a dyhead i ddychwelyd, a 'chynefin' fel gwreiddiau'r ymdeimlad o berthyn sy'n parhau dros amser.

Mae Hopwood (2016) a Thomas (2021) yn tynnu sylw at sut y mae'r ddialectig hon yn parhau i fod yn weithredol mewn ysgrifennu cyfoes yng Nghymru, yn enwedig mewn cyd-destunau diasporaidd lle y mae perthyn yn cael ei negodi ar draws ffiniau. Er enghraifft, gall mudwyr ail genhedlaeth ddisgrifio 'cynefin' dyheadol neu ddychmygol sy'n gysylltiedig â thirweddau hynafol, gan fynegi ar yr un pryd hiraeth am gartref nad ydynt erioed wedi byw ynddo. Mae'r ddeuoliaeth hon yn mynegi'r ansicrwydd sydd ynghlwm wrth yr ymdeimlad o berthyn mewn byd lle y mae gwledydd yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn ddibynnol ar ei gilydd: gall rhywun deimlo wedi'i wreiddio'n ddwfn ac wedi'i ddadleoli'n barhaus.

Mae'r rhyngweithio hwn hefyd yn atseinio dadleuon cymharol. Yn yr Almaen, roedd '*Heimat*' ar un adeg yn chwarae rôl debyg, gan ddynodi safle o berthyn. Ac eto, fel y mae Confino (1997) a Boym (2001) yn ein hatgoffa, gellid defnyddio *Heimat* at ddefnydd gwleidyddol a'i ailffurfio i fod yn syniad cenedlaethol a oedd weithiau'n eithrio pobl yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. I'r gwrthwyneb, mae 'cynefin' hyd yn hyn wedi'i ailddychmygu'n bennaf fel rhywbeth cadarnhaol a chynhwysol mewn diwylliant a pholisi. Tanlinella'r cyferbyniad hwn bwysigrwydd atblygrwydd (reflexivity) wrth gynnal 'cynefin' fel allweddair cynhwysol yn hytrach nag eithrio.

Cynefin mewn trafodaeth ddinesig a chymunedol

Y tu hwnt i gylchoedd llenyddol ac academaidd, defnyddir 'cynefin' fwyfwy mewn lleoliadau dinesig, crefyddol a chymunedol. Mae James (2018) yn dogfennu sut y mae eglwysi yng Nghymru wedi defnyddio'r term er mwyn mynegi'r ymdeimlad o berthyn ysbrydol sy'n gysylltiedig â lleoliad lleol, tra bod sefydliadau diwylliannol ar lawr gwlad yn ei ddefnyddio er mwyn disgrifio prosiectau cadwraeth treftadol a gwydnwch cymunedol. Yn y cyd-destunau hyn, mae 'cynefin' yn cadw ei gynodiadau hanesyddol o draddodiad a pharhad ond caiff ei addasu er mwyn cwmpasu amryfal gymunedau a chymunedau amlethnig.

Mae'r ehangu hwn yn adlewyrchu trawsnewidiadau ehangach yng nghymdeithas Cymru,

yn enwedig mewn ardaloedd trefol fel Caerdydd, Abertawe a Wrecsam, lle y mae patrymau newydd o fudo ac ymgartrefu yn ail-lunio tirweddau diwylliannol. Mae ysgolheigion mewn amlddiwylliannaeth yng Nghymru wedi pwysleisio'r angen am fframweithiau perthyn sy'n mynd y tu hwnt i syniadau hanfodol neu ethnig o Gymreictod (Threadgold 2012; Williams 2020, 2022). Cynigiwyd 'cynefin', oherwydd ei gyfoeth semantig, fel un fframwaith o'r fath: fel ffordd o ddisgrifio'r ymdeimlad o berthyn sy'n seiliedig ar fywyd bod dydd neu brofiad bywyd, yn hytrach nag ar gefndir teuluol yn unig.

Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae beirniaid yn rhybuddio na ellir cymryd y cynhwysiant yn ganiataol. Mae Williams (2022) a Davies (2025) yn dadlau bod yn rhaid ailddehongli 'cynefin' fel gweithred er mwyn cydnabod hanesion ac amryfal hunaniaethau; fel arall, mae mewn perygl o atgynhyrchu delweddau hiraethus o orffennol Cymreig unddiwylliannol. Yr her, felly, yw gwneud 'cynefin' yn gysyniad gwirioneddol amrywiol o berthyn, sy'n agored i drafodaeth a her.

Cynefin fel allweddair polisi: Y Cwricwlwm i Gymru

Y datblygiad mwyaf trawiadol ym mywyd cyfoes 'cynefin' yw ei gynnwys yn y Cwricwlwm i Gymru, a gyflwynwyd yn 2022 (Llywodraeth Cymru 2020, 2022a, 2022b). Yma, diffinnir 'cynefin' yn benodol fel y lle yr ydym yn perthyn iddo, lle y mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a'r golygfeydd a'r synau yn rhai y gellir eu hadnabod (Davis a Conn 2024). I bob pwrpas, mae allweddair diwylliannol brodorol wedi'i ddyrchafu i statws egwyddor gwricwlaidd.

Adlewyrcha'r ymgorffori hwn y duedd ehangach mewn polisi addysgol, lle y mae llywodraethau'n ceisio fwyfwy i ymgorffori gwerthoedd diwylliannol mewn dyluniad cwricwlaidd (Priestley et al. 2021; Evans 2022). Er enghraifft, ymgorfforir diwylliant y Mãori, megis *Turangawaewaew*, sef y cysyniad dwfn o berthyn i le a chymuned, yng nghwricwlwm Seland Newydd (Harris et al. 2025). Yng Nghymru, tasg 'cynefin' yw angori ymdeimlad dysgwyr o hunaniaeth a dinasyddiaeth o fewn cyd-destunau lleol a chenedlaethol, wrth eu paratoi hefyd ar gyfer ymgysylltiad byd-eang.

Mae ymgorffori 'cynefin' yn y Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd â thrafodaethau rhyngwladol am addysgeg sy'n cynnal diwylliant (Paris a Alim 2017) ac addysg sy'n seiliedig ar le (Gruenewald 2003; Sobel 2004). Yn y traddodiadau addysgeg hyn, nid rhywbeth yn y cefndir yw lleoliad ond adnodd ar gyfer dysgu beirniadol, ffurfio hunaniaeth a chyfranogiad dinesig. Drwy wreiddio'r cwricwlwm mewn cynefin, mae llunwyr polisi Cymru yn anelu at bwysleisio diwylliant Cymru wrth gydnabod yr ysfa ehangach i berthyn. Mae'r agwedd hon yn cysylltu hunaniaeth leol â'r profiad dynol.

Potensialau a risgiau sefydliadoli

Mae ymgorffori cynefin fel conglfaen cwricwlaidd yn cyflwyno cyfleoedd clir. Mae'n cynnig fframwaith sydd wedi'i seilio'n ddiwylliannol ar gyfer cysylltu iaith, treftadaeth a hunaniaeth; mae'n cefnogi addysg ddwyieithog a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mae'n rhoi cysyniad

hyblyg i addysgwyr er mwyn mynd i'r afael ag amrywiaeth, hawliau a chynhwysiant (Griffiths 2024; Ryder a Packer 2024; Tyrie a Brinn 2024). Ar ben hynny, fel y mae Egan (2024) yn ei ddadlau, mae fframio anfantais addysgol fel colli 'cynefin' yn arddangos sut y mae tlodi'n effeithio ar ddiwylliant a pherthynas, ac nid arian yn unig.

Eto i gyd, mae'r cyfleoedd hyn yn cuddio risgiau sylweddol. Yn gyntaf, fel y pwysleisia Haughton a Palmer (2024), gall defnydd anfeirniadol o'r term 'cynefin' atgyfnerthu syniadau cul o Gymreictod gan eithrio rhai grwpiau. Yn ail, fel y noda Hutt (2024), pan drosglwyddir 'cynefin' i iaith fiwrocrataidd, swyddogol, collir ei gyfoeth, a chaiff ei ddiosg o'r teimladau a'r ystyron a ddaeth ynghlwm wrtho dros amser. Yn drydydd, heb ganllawiau clir ar gyfer athrawon, mae 'cynefin' mewn perygl o gael ei ddefnyddio fel slogan symbolaidd yn hytrach nag fel egwyddor addysgu ystyrlon (Chapman et al. 2023; Davis a Conn 2024).

Mae'r risgiau hyn yn adleisio llwybrau hanesyddol allweddeiriau diwylliannol eraill. Fel y dadleuodd Raymond Williams (1976), mae allweddeiriau'n ffynnu pan gânt eu defnyddio ym mhrofiadau real bywyd, ond maent yn 'rhewi' pan gânt eu datgysylltu o'u cyd-destunau diwylliannol. Mae neges '*Heimat*' yn glir: pan gaiff geiriau am berthyn eu defnyddio'n ddiofal gan lywodraethau neu yng nghyd-destun cenedlaetholdeb, gall hynny eithrio pobl. Felly, yr her gyfoes i Gymru yw sicrhau bod cynefin yn parhau'n hyblyg ac yn gynhwysol – yn cynrychioli lleisiau ac ystyron newydd sy'n creu posibiliadau newydd – wrth iddo gael ei ddefnyddio mewn systemau ffurfiol.

Tuag at gynefin gynhwysol

Cynigia ysgolheigion ac ymarferwyr sawl strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â'r heriau hyn. Mae Chapman et al. (2023) a Ryder a Packer (2024) yn galw am gynnal dwyieithrwydd a storïau am amrywiaeth, ac osgoi defnyddio syniadau cul o berthyn. Mae Haughton a Palmer (2024) yn dadlau dros ymgorffori cynefin mewn rhaglenni dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon sy'n archwilio ac yn ystyried materion megis pŵer, eithrio ac amrywiaeth. Pwysleisia Tyrie a Brinn (2024) yr angen i gyd-ddylunio gyda dysgwyr a chymunedau, gan sicrhau bod deunyddiau cwricwlaidd ar gynefin yn parhau i fod yn seiliedig ar brofiad byw. Yn olaf, mae Egan (2024) a Parveen (2024) yn pwysleisio'r angen i gysylltu cynefin â chanlyniadau ecwiti neu ddeilliannau tegwch, yn enwedig ar gyfer grwpiau sydd wedi'u heithrio neu grwpiau diasporaidd.

Mae'r argymhellion hyn yn cytuno ar un pwynt: mae'n rhaid i gynefin aros yn ddeinamig, fel testun trafodaeth, ac yn amrywiol os yw am wasanaethu fel egwyddor ystyrlon yn y Gymru gyfoes. Mae gwydnwch 'cynefin' dros y canrifoedd yn deillio o'i allu i ddod â'r syniadau lleol ac ehangach ynghyd, y teimladau a'r defnydd ymarferol, a'r hen ffyrdd a'r ffyrdd newydd o feddwl. Os gall cymdeithas gyfoes Cymru gynnal yr hyblygrwydd hwn, gall 'cynefin' barhau nid yn unig i gefnogi hunaniaeth ddiwylliannol ond addysg gynhwysol a pholisi.

Cynefin mewn polisi cyfoes a'r Cwricwlwm i Gymru

Mae ymgorffori 'cynefin' yn y Cwricwlwm i Cymru yn cynrychioli un o'r datblygiadau mwyaf trawiadol yn nhaith gyfoes yr allweddair diwylliannol hwn. Er y cyfeiriwyd yn yr adrannau cynharach at olrhain 'cynefin' drwy gyfraith ganoloesol, dychymyg barddonol a thrafodaeth ddiwylliannol fodern, mae'r Cwricwlwm i Gymru yn nodi'r foment lle y mae gair hanesyddol ag iddo arwyddocâd emosiynol yn dod yn rhan swyddogol o bolisi addysgol. Mae'r adran hon yn archwilio arwyddocâd y cam hwnnw. Mae'n ystyried y cyfleoedd a'r risgiau o ymgorffori 'cynefin' fel egwyddor gwricwlaidd, yn ystyried y datblygiad hwn mewn perthynas â fframweithiau addysgeg a damcaniaethol ehangach, ac yn asesu ei oblygiadau ar gyfer addysg a hunaniaeth ddiwylliannol Cymru.

Y Cwricwlwm i Gymru a'r polisi yn troi at gynefin

Mae'r Cwricwlwm i Gymru, a gyflwynwyd yn statudol yn 2022, yn cynrychioli ymadawiad o gwricwlwm rhagnodol, sy'n cynnwys addysgu pynciau o fewn fframwaith sydd wedi'i adeiladu o amgylch dibenion trawsbynciol a Meysydd Dysgu a Phrofiad (Llywodraeth Cymru 2020, 2022a). Yn y weledigaeth hon, mae 'cynefin' wedi'i leoli nid yn unig fel elfen ddiwylliannol ond fel egwyddor allweddol sy'n dylunio'r cwricwlwm: 'y man lle teimlwn ein bod yn perthyn iddo, lle mae'r bobl a'r dirwedd o gwmpas yn gyfarwydd, a lle mae'r golygfeydd a'r seiniau yn gysurus o hawdd eu hadnabod ... y lleoliad hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol sydd wedi ffurfio'r gymuned sy'n trigo yno' (Llywodraeth Cymru 2022a). Nid ystyr diwylliannol yn unig sydd gan 'cynefin' yma ond egwyddor allweddol sy'n llywio sut y bydd y cwricwlwm cyfan yn cael ei ddefnyddio gan addysgwyr er mwyn cynllunio eu gwersi a'r profiadau i'w dysgwyr. Er enghraifft, nodir yn y canllawiau ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau y dylai dysgwyr 'ddefnyddio cyd-destunau cyfoes a hanesyddol i ymchwilio ac archwilio'r profiad dynol yn eu hardal eu hunain a gweddill Cymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach' (Llywodraeth Cymru 2022b).

Fel y noda Davis a Conn (2024) yn eu cyfres blog BERA 'Doing Cynefin', mae'r newid polisi hwn yn dyrchafu 'cynefin' yn effeithiol i statws 'allweddair polisi' (gan adleisio Williams 1976). Ei dasg yw ymgorffori uchelgais y cwricwlwm i wreiddio'r addysg yn y 'lleol' a'r cenedlaethol tra ei fod hefyd yn annog ymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. Yn yr ystyr hwn, mae 'cynefin' yn enghraifft o'r hyn y mae Ball (1994, 2013) yn ei ddisgrifio fel 'floating signifier' mewn polisi: term nad oes un ystyr pendant iddo, a thra bod consensws ar yr egwyddor o'i gynnwys yn y cwricwlwm, mae'n destun dadlau o ran sut i'w ddefnyddio a'i weithredu'n ymarferol.

Cynefin fel polisi-addysgeg hybrid

Mae Davis a Conn (2024) yn cyfeirio at 'gynefin' fel 'polisi-addysgeg hybrid': polisi sy'n cyfeirio at brofiadau byw o berthyn a hefyd yn rhagnodi amcanion cwricwlaidd ar yr un pryd. Mae'r statws hybrid hwn yn arwyddocaol. Yn wahanol i dermau cwricwlaidd confensiynol (megis 'llythrennedd' neu 'rhifedd'), nid yw 'cynefin' wedi deillio o theori

addysgol. Yn hytrach, deilliodd 'cynefin' o ddiwylliant a hanes. Felly mae ymgorffori 'cynefin' yn pontio dau barth sy'n aml yn cael eu cadw ar wahân: sef teimladau personol am le, cof a hunaniaeth; a gofynion strwythur ffurfiol addysg.

Gellir dadlau bod statws hybrid cynefin yn codi cwestiynau damcaniaethol. Gan ddilyn Bernstein (2000), gallwn weld cwricwlwm fel proses o ail-gyd-destunoli, lle y mae gwybodaeth ddiwylliannol yn cael ei dewis, ei hail-lunio, a'i throsglwyddo o fewn fframweithiau addysgeg. Yn yr achos hwn, mae 'cynefin' yn cynrychioli ail-gyd-destunoli allweddair diwylliannol mewn trafodaeth polisi, h.y. mae 'cynefin' wedi ei newid o fod yn allweddair diwylliannol i fod yn derm polisi. Mae risgiau wrth wneud hyn: unwaith y bydd wedi'i ddatgysylltu o'i gyd-destunau hanesyddol a barddonol, mae perygl iddo golli ei ystyr dyfnach a throi'n derm biwrocrataidd. Ac eto, mae hyn yn creu cyfle arwyddocaol: gallai ymgorffori 'cynefin' o fewn polisi addysg ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ymchwilio ac archwilio'r profiad dynol yn eu hardal eu hunain a gweddill Cymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach, gan ddarganfod eu treftadaeth a datblygu ymdeimlad o le a chynefin. Gallai hyn sicrhau y bydd cynefin yn destun trafod i genedlaethau'r dyfodol.

Damcaniaeth systemau ecolegol a chynefin

Un lens ddadansoddol ar gyfer deall sefydliadoli 'cynefin' yw damcaniaeth systemau ecolegol Bronfenbrenner (1979, 2005). Mae addysg yn gweithredu o fewn systemau nythu:

- *System Micro*: amgylchedd uniongyrchol dysgwyr (teulu, ysgol, grŵp cyfoedion). Yma, mae 'cynefin' yn cyd-fynd ag arferion sy'n angori dysgwyr yn eu cymuned leol a'u hiaith.
- *System Meso*: rhyng-gysylltiadau rhwng systemau micro (e.e. cysylltiadau ysgol-cymuned). Mae 'cynefin' yma yn cefnogi prosiectau cydweithredol sy'n cysylltu ysgolion â sefydliadau diwylliannol lleol, safleoedd treftadaeth a bywyd dinesig.
- *System Exco*: strwythurau sy'n llunio profiadau dysgwyr yn anuniongyrchol (e.e., cyfryngau, polisïau awdurdodau lleol). Mae sut y caiff 'cynefin' ei ddatblygu o fewn prosiectau rhanbarthol yn effeithio ar sut y mae ysgolion yn ystyried yr ymdeimlad o berthyn ac yn ei addysgu.
- *System Macro*: cyd-destunau cyffredinol diwylliannol, gwleidyddol ac ieithyddol. Ar y lefel hon, mae 'cynefin' yn atseinio â dadleuon am hunaniaeth genedlaethol, cadwraeth y Gymraeg, a sut y mae Cymru'n gweithredu fel uned wleidyddol annibynnol o fewn y Deyrnas Unedig.

O'r safbwynt ecolegol hwn, nid yw ymgorffori cynefin yn y Cwricwlwm i Gymru yn gam cwricwlaidd cul ond yn ymyrraeth systemig. Mae'n ceisio alinio system micro profiadau'r ystafell ddosbarth â system macro hunaniaeth ddiwylliannol, gan helpu dysgwyr i ddatblygu eu synnwyr personol o hunaniaeth, diwylliant a pherthyn.

Addysgeg gynhaliol ddiwylliannol ac addysg sy'n seiliedig ar le

Mae defnydd y Cwricwlwm i Gymru o 'gynefin' hefyd yn atseinio â thraddodiadau addysgeg byd-eang. Mae 'addysgeg ddiwylliannol gynhaliol' (culturally sustaining pedagogy) (Paris ac Alim 2017) yn dadlau na ddylai addysg ddarparu ar gyfer dysgu ieithoedd ac arferion diwylliannol cymunedau yn unig, ond yn hytrach dylai addysg gefnogi a chynnal hunaniaeth a diwylliant eu dysgwyr. Yn yr ystyr hwn, mae 'cynefin' yn gweithredu fel fersiwn Gymreig o addysgeg ddiwylliannol gynhaliol, gan ei fod yn angori'r broses o ffurfio hunaniaeth gan gysylltu'r dysgu a lle, hanes a iaith y dysgwyr.

Yn yr un modd, pwysleisia 'addysgeg seiliedig ar le' (place-based education) (Gruenewald 2003; Sobel 2004) werth pedagogaidd dysgu am amgylchedd lleol, a gwerth creu cysylltiad rhwng y dysgwyr a'r amgylchedd hwnnw. Mae ymgorffori 'cynefin' yn y Cwricwlwm i Gymru yn adleisio'r cyfeiriadedd hwn ond yn ychwanegu dyfnder diwylliannol ac ieithyddol sydd ar goll o lawer o drafodaethau Saesneg eu hiaith. Tra bod 'addysgeg seiliedig ar le' yn aml yn canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd ecolegol ac amgylcheddol y dysgwyr a chyfrannu at weithgareddau cymunedol, mae 'cynefin' hefyd yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr werthfawrogi sut y mae arfer ddiwylliannol Gymreig, wedi'i dylanwadu gan hanes, hiraeth ac atgofion, yn cyfrannu at eu dealltwriaeth o leoliad, hunaniaeth a pherthyn.

Cymwysiadau mewn polisi ac ymarfer

Archwiliwyd yn fanwl sut y mae 'cynefin' yn cael ei weithredu'n ymarferol yn rhifyn arbennig BERA, 'Doing Cynefin' (Davis a Conn 2024). Mae sawl thema'n dod i'r amlwg:

- *Iaith a pharhad diwylliannol.* Mae Ryder a Packer (2024) yn tynnu sylw at 'gynefin' fel offeryn ar gyfer cynnal addysg cyfrwng Cymraeg ac atgyfnerthu hunaniaeth ddwyieithog. Mae hyn yn cysylltu â sut y cafodd ei ddefnyddio mewn testunau llenyddol cynharach, lle yr oedd 'cynefin' yn arddangos cysylltiad parhaus rhwng tir, iaith a hunaniaeth.
- *Ecwiti ac anfantais.* Mae Egan (2024) yn ail-lunio tlodi fel colli 'cynefin' gan bwysleisio sut y mae'n effeithio ar berthnasau a diwylliant, ac nid arian yn unig.
- Mae Egan (2024) yn ail-lunio tlodi fel gair sydd hefyd yn cyfleu colli 'cynefin', gan bwysleisio dimensiynau diwylliannol a pherthynol anfantais. Mae hyn yn cyd-fynd â'r syniad ecolegol fod tlodi yn cyfleu mwy na thlodi ariannol: mae hefyd yn gallu arwain at golli synnwyr o gysylltiad a pherthyn yn ogystal â dylanwadu ar synnwyr pobl o gysylltu a pherthyn.
- *Gwrth-hiliaeth a synnwyr o berthyn i sawl lle.* Mae Haughton a Palmer (2024) yn dangos sut y mae cynefin yn cael ei ddefnyddio mewn Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliol (DARPL). Maent yn pwysleisio'r potensial a'r risg: gall 'cynefin' ehangu syniadau am berthyn drwy wneud perthyn yn fwy cynhwysol, ond os caiff ei gymhwyso'n ddifeddwl, mae'n

gallu cryfhau'r syniad o hunaniaeth a Chymreictod cul gan eithrio rhai pobl.

- *Llais a hawliau'r dysgwr.* Mae Tyrie a Brinn (2024) yn cysylltu cynefin â hawliau cyfranogol plant, gan ei leoli o fewn trafodaethau rhyngwladol sy'n seiliedig ar hawliau. Mae hyn yn dwyn i gof neges Williams (2003) bod urddas yn cael ei wireddu trwy brofiadau cyffredinol yn ogystal â phrofiadau personol a lleol o berthyn.
- *Arolygu ac atebolrwydd.* Mae Hutt (2024) yn beirniadu cyfundrefnau arolygu sy'n lleihau a throi 'cynefin' yn feincnodau mesuradwy. Yn hytrach, mae'n dadlau dros fframweithiau gwerthuso sy'n cyfleu cyd-destunau bywyd go-iawn. Adleisia hyn rybudd Williams (1976) fod allweddeiriau mewn perygl o golli eu hystyron pan gânt eu datgysylltu oddi wrth brofiadau bywyd go-iawn.

Gyda'i gilydd, dangosa'r enghreifftiau hyn sut y mae 'cynefin' yn gallu gweithredu fel prism sy'n cefnogi nifer o nodau polisi, megis adfywio iaith, ecwiti, gwrth-hiliaeth, llais a hawliau dysgwyr, ac atebolrwydd system.

Potensial a pheryglon

Mae potensialau a risgiau wrth ymgorffori 'cynefin' ym mholisi'r Cwricwlwm i Gymru.

Potensialau:

- Yn gosod traddodiadau diwylliannol a dwyieithrwydd wrth wraidd addysg Cymru
- Yn darparu fframwaith hyblyg ar gyfer addysgeg sy'n seiliedig ar le ac sy'n cynnal diwylliant
- Yn cynnig ffyrdd o ailfeddwl am dlodi, tegwch a chyfranogiad yng nghyd-destun cysylltiadau a pherthyn
- Yn angori dyluniad cwricwlwm cenedlaethol mewn traddodiadau penodol Cymreig yn hytrach na modelau a fabwysiadwyd gan wledydd eraill.

Peryglon:

- Risg o homogeneiddio hunaniaeth Gymreig os na chaiff hunaniaethau amrywiaeth eu cydnabod
- Colli dyfnder emosiynol a dychmygol os bydd yn canolbwyntio gormod ar reolau a biwrocratiaeth.
- Gall canllawiau aneglur arwain at arfer anghyson ac arwynebol yn yr ystafell ddosbarth.

- Fel *Heimat* yn yr Almaen, gellid ei ddefnyddio mewn ffyrdd a all eithrio os nad ystyrir yn ofalus cyn ei ddefnyddio (cydnabod amrywiol safbwyntiau, bod diffiniadau o hunaniaeth yn cael eu creu heb fod yn sefydlog, annog dysgwyr i gwestiynu a myfyrio yn hytrach na derbyn) (Confino 1997; Boym 2001).

Bydd y cydbwysedd rhwng y potensialau a'r peryglon hyn yn siapio arwyddocâd 'cynefin' mewn addysg yn y dyfodol.

Persbectifau cymharol

Mae gosod 'cynefin' mewn persbectif cymharol yn tynnu sylw at ei unigrywiaeth a'i heriau. Mae geiriau fel '*Heimat*', '*saudade*' (Portiwgaleg), neu 'hiraeth' yn cyfleu cysylltiadau emosiynol cryf â lle a chymuned. Eto i gyd, ychydig o'r rhain sydd wedi'u hymgorffori'n ffurfiol mewn cwricwla gwladol. Lle y gwelir rhain – megis cysyniadau *Māori o whenua a turangawaewae*, sydd wedi'u hymgorffori yng nghwricwlwm Seland Newydd (Smith 2012) – maent yn pwysleisio eu potensial cadarnhaol yn ogystal â'r risg o orsymleiddio hunaniaeth i rywbeth sy'n statig a digyfnewid.

Yng ngoleuni'r ymdriniaeth gymharol hon, mae'r arbrawf Cymreig gyda 'cynefin' yn arloesol. Mae'n ymdrech fwriadol i ymgorffori term diwylliannol ystyrlon mewn addysg genedlaethol, a thrwy hynny alinio polisi â hunaniaeth ddiwylliannol. Bydd llwyddiant yr arloesi hyn yn dibynnu ar allu 'cynefin' i aros yn ddeinamig a chynhwysol yn hytrach nag yn statig ac yn rhywbeth sy'n eithrio.

Argymhellion ar gyfer gweithredoedd atblygol – neu argymhellion ar gyfer troi syniadau yn ymarfer mewn ffordd feddylgar a myfyriol

Gan adeiladu ar ganfyddiadau BERA a mewnwelediadau damcaniaethol ehangach, ceir sawl argymhelliad y gellir ei nodi ar gyfer rhoi 'cynefin' ar waith yn ymarferol mewn ffordd feddylgar a myfyriol.

1. *Cynnal amrywiaeth*
   Ymgorffori a chynnwys canfyddiadau amrywiaeth drwy ychwanegu storïau am ymfudo, diaspora, profiadau perthyn lleiafrifol ochr yn ochr â delweddau traddodiadol o gymunedau Cymreig.

2. *Darparu dysgu proffesiynol myfyriol*
   Wrth gynllunio ar gyfer ymgorffori cynefin yn eu haddysgu a'r dysgu, sicrhau bod athrawon yn cwestiynu'n feirniadol a fuont yn gynhwysol, gan ystyried cynefin pwy sy'n cael ei gynrychioli a sut y gallai rhai grwpiau o bosibl gael eu heithrio.

3. *Blaenoriaethu cyd-ddylunio*
   Cynnwys dysgwyr, rhieni a chymunedau wrth lunio sut y mae 'cynefin' yn cael ei weithredu'n ymarferol mewn ysgolion.
4. *Ymatal rhag ildio i bwysau biwrocrataidd*
   Dylunio systemau atebolrwydd sy'n blaenoriaethu arfer cyd-destunau penodol, ystyrlon dros feincnodau safonol.

5. *Cysylltu â chanlyniadau ecwiti*
   Gwirio'n benodol sut y mae addysgeg sy'n seiliedig ar cynefin yn lleihau anfantais ac yn darparu deilliannau cyfartal a thegwch ar gyfer pob dysgwr.

Nod y strategaethau hyn gyda'i gilydd yw cynnal ystyr emosiynol dwfn, sef y teimladau personol dwfn o berthyn i'r lle y maent yn byw ynddo, ac ystyr diwylliannol cynefin wrth sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio'n gywir mewn polisi addysg ac ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.

Casgliad: 'cynefin' fel allweddair polisi

Mae ymgorffori cynefin yn y Cwricwlwm i Gymru yn enghraifft o sefydliadoli allweddair diwylliannol, sef gwneud ystyr diwylliannol term yn rhan ffurfiol o'r system addysg. Mae'n trawsnewid allweddair sydd wedi'i wreiddio'n hanesyddol ac emosiynol i egwyddor ffurfiol o'r cwricwlwm gyda goblygiadau ehangach. Bydd gwydnwch yr arloesi hwn, neu pa mor llwyddiannus y bydd hyn, yn dibynnu ar allu'r llunwyr polisi, addysgwyr a chymunedau i gadw amryfal ystyron 'cynefin', gan fyfyrio a chydnabod amrywiaeth. Os yw'n llwyddiannus, gall cynefin wasanaethu fel model o ddylunio cwricwlwm sy'n gynaliadwy'n ddiwylliannol, gan ddangos sut y gall cysyniadau perthyn sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn lywio ymarfer addysgol blaengar. Os na fydd yn llwyddiannus, mae perygl iddo fynd yn arwynebol neu eithrio rhai pobl. Fel gyda'r syniadau a'r traddodiadau llenyddol a hanesyddol blaenorol, gwelir cryfder 'cynefin' yn y modd y mae'n gwrthod cael ei sefydlogi: mae cynefin yn ffynnu pan fydd yn parhau i fodoli fel rhywbeth deinamig sy'n destun trafod y gellir ei herio.

Casgliad

Mae'r astudiaeth hon wedi olrhain arwyddocâd esblygol cynefin mewn hanes, llenyddiaeth, trafodaeth ddiwylliannol a pholisi addysgol. Gan ddechrau yn yr Oesoedd Canol, lle yr oedd y term yn dynodi hawliau etifeddol, bondiau cymdeithasol a chysylltiadau cryf pobl â'u teuluoedd a'u cymunedau, gwelwyd bod cynefin wedi ei gysylltu â phwysigrwydd cyfreithiol, cymdeithasol ac emosiynol (Lynch et al. 2003; Pryce 2022). Yn y dychymyg llenyddol, o'r cywyddwyr hyd at R. Williams Parry ac Eifion Wyn, defnyddiwyd cynefin fel ffordd o fynegi cyswllt rhwng tirwedd, cof a hunaniaeth. Mae'n gael ei gysylltu â'r syniadau am 'hiraeth', tra ei fod yn debyg – ond hefyd yn wahanol – i gysyniadau cyfandirol fel 'Heimat' (Johnston 1994; Gramich 2007; Confino 1997). Ar draws y cyd-destunau hyn, gweithredodd y gair fel

yr hyn a alwodd Williams (1976) yn 'allweddair': yn gyfoethog mewn ystyr, yn agored i ddeongliadau gwahanol, ac yn llawn cof diwylliannol.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, datblygodd 'cynefin' werthoedd newydd. Daeth yn gysylltiedig nid yn unig â synnwyr rhamantus o le ond hefyd â beirniadaeth gymdeithasol a thrafodaeth ddiwylliannol. Archwiliodd awduron fel T. H. Parry-Williams eironi gwreiddiau ac ystyr cynefin mewn cymdeithas a oedd yn moderneiddio, tra bod beirniaid fel M. Wynn Thomas (1992, 2021) wedi tynnu sylw at y tensiwn yn llenyddiaeth fodern Cymru rhwng teimlo eich bod yn perthyn a theimlo eich bod wedi eich dieithrio. Roedd yr amwysedd hwn yn atal 'cynefin' rhag dod yn derm a oedd yn cyfeirio at hiraeth a'r gorffennol yn unig. Yn hytrach na dod yn rhywbeth digyfnewid a sefydlog, parhaodd 'cynefin' i weithredu fel term hyblyg a thestun trafodaeth, a oedd yn gallu cwmpasu traddodiad a newid.

Mae'r defnydd cyfoes o 'gynefin' mewn trafodaeth gyhoeddus a pholisi addysgol yn nodi newid pwysig o ran ei ystyr a'i swyddogaeth. Adlewyrchir dyfnder a chymhlethdod hanesyddol y term yn y ffaith na wnaed unrhyw ymgais i gyfieithu 'cynefin' yn uniongyrchol i'r Saesneg yn nogfennau dwyieithog y Cwricwlwm i Gymru (Griffiths 2024). Yn y Cwricwlwm i Gymru, mae'r term wedi'i ddyrchafu o fod yn drosiad diwylliannol i fod yn egwyddor gwricwlaidd, gyda'r bwriad o gysylltu profiad byw dysgwyr â dinasyddiaeth fyd-eang ehangach (Llywodraeth Cymru 2020, 2022a; Roberts 2023; Davies 2025). Yn y trawsnewidiad hwn, mae 'cynefin' yn enghraifft o'r ddeinameg a ddisgrifiwyd gan Bernstein (2000): ail-gyd-destunoli gwybodaeth ddiwylliannol o fewn trafodaeth addysgeg, neu'n syml, syniadau diwylliannol yn cael eu haddasu ar gyfer addysgu. Mae'n allweddair polisi ac yn yr hyn y mae Davis a Conn (2024) yn ei alw'n 'polisi-addysgeg hybrid' (yn allweddair polisi ac yn offeryn addysgu) sy'n gallu pontio neu gysylltu teimladau cryf o berthyn – i le, cymuned neu hunaniaeth – gyda strwythur addysgol.

Ac eto, mae'r sefydliadoli hwn yn cyflwyno tensiynau newydd. Ar y naill law, mae 'cynefin' yn cynnig fframwaith pwerus ar gyfer addysgeg sy'n gwerthfawrogi diwylliant a gwerthoedd (Paris ac Alim 2017) ac ar gyfer addysg sy'n seiliedig ar le a'r ardal leol (Gruenewald 2003; Sobel 2004). Ar y llaw arall, mae mewn perygl o ddod yn jargon biwrocrataidd neu o gael ei ddefnyddio er mwyn hyrwyddo hunaniaeth gul o Gymreictod ac eithrio eraill (James 2018; Davies 2025). Wrth gyfeirio at enghreifftiau tebyg mewn gwledydd eraill, dangosir y risgiau a'r posibiliadau: mae *Heimat* yn dangos potensial ar gyfer eithrio rhai pobl, tra bod cysyniadau Māori megis *Turangawaewae* sydd wedi'u hymgorffori yng nghwricwlwm Seland Newydd yn dangos y posibilrwydd o addysgeg gynhwysol a dadgoloneiddio (Smith 2012; Harris et al. 2025).

Canfyddiad canolog yr astudiaeth hon yw nad oes gan 'cynefin' ystyr sefydlog, a dyna sy'n ei wneud yn bwerus. Mae ei gyfoeth yn deillio o'i ddyfnder hanesyddol, y deongliadau amrywiol ohono mewn llenyddiaeth a'i gysylltiadau emosiynol cryf â bywydau pobl heddiw. Gallai ei sefydliadoli, drwy ei ymgorffori yn y cwricwlwm heb roi iddo ystyriaeth bwyllog, leihau'r cyfoeth hwn. Mae ei gofleidio fel rhywbeth dadleuol, amrywiol, ac esblygol yn

caniatáu iddo wasanaethu fel egwyddor gynhyrchiol ar gyfer diwylliant ac addysg Cymru fel ei gilydd.

Yn y pen draw, y ffordd orau o ddeall cynefin yw nid fel lleoliad sefydlog ond fel cyfeiriadedd deinamig: ffordd o leoli'r hunan mewn perthynas â hanes, cymuned a thirwedd, gan barhau i fod yn agored i newid ac amrywiaeth. Wrth i Gymru barhau i drafod ei hunaniaeth o fewn y Deyrnas Unedig a thu hwnt iddi, bydd dyfodol cynefin yn dibynnu ar ei allu i wreiddio ac i dyfu a newid – i wreiddio drwy helpu pobl i gysylltu eu hunain â'r tirwedd, hanes, diwylliant, traddodiad – ac i dyfu a newid drwy ymateb i leisiau newydd, amrywiaeth, a gorwelion newydd.

Deallusrwydd Artiffisial

Ni ddefnyddiwyd unrhyw offer Deallusrwydd Artiffisial (DA) i ysgrifennu a pharatoi'r papur ymchwil hwn.

Llyfryddiaeth

Adams, D. (2024), 'Exploring the curriculum potential of the Welsh word cynefin by examining its new materialist and contemplative pedagogical resonances', *Journal of Contemplative and Holistic Education*, 2 (2). <https://10.25035/jche.02.02.01>

Ball, S. (2013), 'Policy Sociology and Critical Social Research: a personal review of recent education policy and policy research', *British Educational Research Journal*, 23 (3), 257–74. <https://doi.org/10.1080/0141192970230302>

Bernstein, B. (2000), *Pedagogy, Symbolic Control, and Identity: Theory, Research, Critique* (London: Rowman & Littlefield).

Boym, S. (2001), *The Future of Nostalgia* (University of Michigan: Basic Books).

Bronfenbrenner, U. (1979), *The Ecology of Human Development: Experiments by Nature and Design* (Cambridge, MA: Harvard University Press).

Casey, E. S. (1996), *Getting Back into Place: Towards a Renewed Understanding of the Place-World* (New York: Indiana University Press).

Chapman, S., et al. (2023), '"My picture is not in Wales": Pupils' perceptions of cynefin (Belonging) in primary school curriculum development in Wales', *Education 3–13: International Journal of Primary, Elementary and Early Years Education*, 51 (8), 1214–228. <https://doi.org/10.1080/03004279.2023.2229861>

Confino, A. (1997), *The Nation as a Local Metaphor: Heimat, National Memory and the German Empire, 1871–1918* (Chapel Hill: University of North Carolina Press).

Davies, A. (2025), 'From Cynefin to Cymru and beyond – debating the Curriculum for Wales and locating nation', *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 27 (1), 107–27. <https://doi.org/10.16922/wje.27.1.5>

Davis, S., a Conn, C. (2024) 'Editorial: Doing cynefin: Exploring ideas on belonging, connectedness and community in the Curriculum for Wales', *BERA Blog Special Issue*, 24 Mai, <https://www.bera.ac.uk/blog-special-issues/doing-cynefin-exploring-ideas-on-belonging-connectedness-and-community-in-the-curriculum-for-wales> [Cyrchwyd: 3 Medi 2025].

Egan, D. (2024), 'The impact of poverty on education, community and cynefin', *BERA Blog Special Issue*, 24 Mai, <https://www.bera.ac.uk/blog-special-issues/doing-cynefin-exploring-ideas-on-belonging-connectedness-and-community-in-the-curriculum-for-wales> [Cyrchwyd: 3 Medi 2025].

Evans, G. (2022), 'Back to the future? Reflections on three phases of education policy reform in Wales and their implications for teachers, *Journal of Educational Change*, 23, 371–96. <https://doi.org/10.1007/s10833-021-09422-6>

Geiriadur Prifysgol Cymru (1950–2002) (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Gramich, K. (2007), *Twentieth-Century Women's Writing in Wales: Land, Gender, Belonging* (Cardiff: University of Wales Press).

Gruenewald, D. (2003), 'The Best of Both Worlds: A Critical Pedagogy of Place', *Educational Researcher*, 32 (4), 3–12.

Griffiths, H. (2024), 'Cynefin: A special place within every learner's heart/Cynefin – lle arbennig tu fewn i galon pob dysgwr yng Nghymru', *BERA Blog Special Issue*, 24 Mai, <https://www.bera.ac.uk/blog-special-issues/doing-cynefin-exploring-ideas-on-belonging-connectedness-and-community-in-the-curriculum-for-wales> [Cyrchwyd: 3 Medi 2025]

Harris, A., et al. (2025), 'Whanaungatanga, teaching and connecting through responsibility and place', *AlterNative*, 21 (3), 478–86.

Haughton, C., a Palmer, K. (2024, May 24), 'Diversity and AntiRacist Professional Learning (DARPL): Establishing antiracist education, through the lens of cynefin', *BERA Blog Special Issue*, 24 Mai, <https://www.bera.ac.uk/blog-special-issues/doing-cynefin-exploring-ideas-on-belonging-connectedness-and-community-in-the-curriculum-for-wales> [Cyrchwyd: 3 Medi 2025].

Hopwood, M. (2016), 'Pob un â'i lais. Pob un â'i le', *Llên Cymru*, 38, 75–94.

Hutt, M. (2024), 'Cynefin and the discourse of inspection', *BERA Blog Special Issue*, 24 Mai, <https://www.bera.ac.uk/blog-special-issues/doing-cynefin-exploring-ideas-on-belonging-connectedness-and-community-in-the-curriculum-for-wales> [Cyrchwyd: 3 Medi 2025].

James, M. C. (2018), *Women, Identity and Religion in Wales: Theology, Poetry Story* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Johnston, D. (1994), *Literature of Wales* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Jones, T. G. (1935), *Beirniadaeth a Myfyrdod* (Wrecsam: Hughes a'i Fab).

Jones, G., a Lewis, C. (2017), 'Identity and Education in Contemporary Wales', *Oxford Review of Education*, 43 (5), 602–18.

Lynch, P., Williams, J. E. C., a Gruffydd, R. G. (goln) (1994), *Gwaith Meilyr Brydydd a'i ddisgynyddion* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Lynch, P. (2003), 'Cynghanedd Cywyddau Dafydd ap Gwilym: Tystiolaeth y Llawysgrifau Cynnar', yn Daniel, I., et al. (goln), *Cyfoeth y Testun* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Llywodraeth Cymru (2020), Pedwar Diben Cwricwlwm i Gymru, <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cynllunio-eich-cwricwlwm/datblygu-gweledigaeth-ar-gyfer-cynllunio-cwricwlwm/#cynllunio-cwricwlwm-a'r-pedwar-diben> [Cyrchwyd: 4 Hydref 2025].

Llywodraeth Cymru (2022a), 'Cwricwlwm i Gymru', <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru> [Cyrchwyd: Medi 2025].

Llywodraeth Cymru (2022b), 'Cwricwlwm i Gymru: Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau', <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/> [Cyrchwyd: Medi 2025]

Massey, D. (2005), *For Space* (London: SAGE Publications).

Paris, D., a Alim, S. (2017), *Culturally Sustaining Pedagogies: Teaching and Learning for Justice in a Changing World* (California: Teachers College Press).

Parry, T. (1948), *Hanes ein Llên* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Parry, T. (1953), *Hanes llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Parry-Williams, T. H. (1957), *Myfyrdodau* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth).

Parveen, Z. (2024), 'Do I finally feel a sense of cynefin?', *BERA Blog Special Issue*, 24 Mai, <https://www.bera.ac.uk/blog-special-issues/doing-cynefin-exploring-ideas-on-belonging-connectedness-and-community-in-the-curriculum-for-wales> [Cyrchwyd: 3 Medi 2025].

Pearson, M. (2006), *In Comes I: Performance, Memory and Landscape* (Exeter: University of Exeter Press).

Priestley, M., et al. (2021), *Curriculum Making in Europe: Policy and Practice Within and Across Diverse Contexts* (Leeds: Emerald Publishing Limited). <https://doi.org/10.1108/9781838677350>

Pryce, H. (2022), *Writing Welsh History: From the Early Middle Ages to the Twenty-First Century* (Oxford: Oxford University Press).

Roberts, A. L. (2023), 'Exploring the Discursive Construction of National Identity Through the Building of the New Curriculum for Wales', *Cylchgrawn Addysg Cymru*, 25 (1), 30–61. <https://doi.org/10.16922/wje.25.1.3>

Ryder, N., a Packer, R. (2024), 'Cynefin and Wales: The key to the future of language and culture/Cynefin a Chymru: Yr allwedd i ddyfodol iaith a diwylliant', *BERA Blog Special Issue*, 24 Mai, <https://www.bera.ac.uk/blog-special-issues/doing-cynefin-exploring-ideas-on-belonging-connectedness-and-community-in-the-curriculum-for-wales> [Cyrchwyd: 3 Medi 2025].

Smith, G. (2012), 'Kaupapa Māori: The dangers of domestication', *New Zealand Journal of Educational Studies*, 47 (2), 10–20.

Sobel, D. (2004), 'Place-Based Education: Connecting Classrooms & Communities', *The NAMTA Journal*, 39 (1), 61–78.

Thomas, N. (1992), *Bydoedd* (Llandysul: Gwasg Gomer).

Thomas, M. W. (1992), *Internal Differences: Literature in Twentieth-Century Wales*, (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Thomas, M. W. (2021), *The History of Wales in Twelve Poems* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Tyrie, J., a Brinn, M. (2024), 'Can the Curriculum for Wales and "cynefin" enable children's participative rights in schools?', *BERA Blog Special Issue*, 24 Mai, <https://www.bera.ac.uk/blog-special-issues/doing-cynefin-exploring-ideas-on-belonging-connectedness-and-community-in-the-curriculum-for-wales> [Cyrchwyd: 3 Medi 2025].

Williams, J. E. C. (1964), *Llên Ddoe a Heddiw* (Dinbych: Gwasg Gee).

Williams, C. (2020), *Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd: adroddiad interim*, <https://www.llyw.cymru/gweithgor-cymunedau-cyfraniadau-chynefin-pobl-dduon-asiaidd-lleiafrifoedd-ethnig-yn-y-cwricwlwm> [Cyrchwyd: 10 Hydref 2025].

Williams, C. (2022), 'Knowing our Place: Cynefin, the Curriculum and Me', yn Chetty, D., et al. (goln), *Welsh Plural: Essays on the Future of Wales* (London: Repeater).

Williams, C., Evans, N., a O'Leary, P. (2015), *A Tolerant Nation? Revisiting Ethnic Diversity in a Devolved Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

Williams, J. E. C. (1964), *Llên Ddoe a Heddiw* (Dinbych: Gwasg Gee).

Williams, R. (1976), *Keywords: A Vocabulary of Culture and Society* (London: Fontana).

Williams, R. (2003), 'Welsh Identity and Christian Imagination', yn Thomas, M. W. (2023), *R. S. Thomas & Rowan Williams: The Spiritual Imagination in Modern Welsh Poetry* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Williams, R., a Williams, D. (gol.) (2003), *Raymond Williams – Who Speaks for Wales? Nation, Culture, Identity* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Yi-Fu, Tuan (1977), *Space and Place: The Perspectives of Experienc*e (Minnesota: University of Minnesota Press).